Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Bodedern, Y Caban Ysgol Gynradd Bodedern, Bodedern Ynys Môn LL65 3TL

**Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2012**

**gan**

**Mr W Williams**

**Arolygydd Cofnodol**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrau Ei Mawrhydi 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 04/05/2012**

## Cyd-destun

Fe sefydlwyd Cylch Meithrin Bodedern yn y pentref dros bum mlynedd ar hugain yn ôl fel rhan o ddarpariaeth Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Ynys Môn. Mae'n darparu addysg cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant pentref Bodedern a'r ardal wledig o'i gwmpas. Mae'r lleoliad yn cyfarfod mewn caban sydd ar dir Ysgol Bro Lleu. Mae hefyd ardal chwarae gaeëdig y tu allan.

Ym marn y lleoliad, nid yw'r ardal a wasanaethir gan y lleoliad yn ffyniannus nag ychwaith o dan anfantais economaidd a chymdeithasol. Caiff plant o bob gallu a chefndir eu derbyn i'r lleoliad. Yn ystod yr arolygiad, roedd nifer fechan iawn o blant ag anghenion addysgol arbennig yn mynychu'r lleoliad.

Darperir sesiynau o ddwy awr a hanner am bedwar bore'r wythnos ynghyd â thair sesiwn o ddwy awr o chwarter am dri phrynhawn. Mae'r nifer o sesiynau a fynychir gan unigolion yn amrywio yn ôl dymuniad rheini. Ar hyn o bryd, mae wyth o blant tair oed wedi'u cofrestru yn y lleoliad gyda chwech ohonynt yn cael eu hariannu gan y Bartneriaeth.

Cymraeg yw'r iaith a siaredir gartref gan fwyafrif y plant. Nid oes yr un plentyn yn dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. Prif gyfrwng addysgu a dysgu'r lleoliad yw Cymraeg.

Cefnogir addysg y plant gan ddwy ymarferydd llawn amser ac un ymarferydd rhan amser. Mae pob un ohonynt wedi'u cymhwyso'n briodol i addysgu'r blynyddoedd cynnar.

Wedi i'r plant orffen eu cyfnod yn y lleoliad, byddant yn parhau gyda'u haddysg yn Ysgol Gynradd Bodedern.

Arolygwyd y lleoliad ddiwethaf gan Estyn ym Mehefin 2005 a chan Arolygaeth Gofal a Gwasanaeth Cymdeithasol Cymru yn Chwefror 2011.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad cyfredol y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn cael eu hadlewyrchu'n gryf yn ansawdd y cwricwlwm;
- addysgu'n dda ac ymarferwyr yn darparu profiadau dysgu diddorol ar draws pob maes dysgu;
- ethos cynhwysol y lleoliad yn creu amgylchedd ysgogol lle y gall pob plentyn ddatblygu gwerthoedd ac agweddau cadarnhaol;
- ansawdd y gofal, cymorth ac arweiniad yn dda, ac
- mae'r lleoliad yn rhoi gwerth da am arian.

**Rhagolygon gwella**

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd bod:

- synnwyr cryf o ddiben a grëir yr arweinyddion yn hyrwyddo a chynnal gwelliannau'n effeithiol;
- trefniadau cadarn wedi'u sefydlu ar gyfer cynnal arfer dda a rhoi newid ar waith;
- ymarferwyr yn barod i roi cynnig ar wahanol ffyrdd o weithio, a'r
- lleoliad yn datblygu'n dda fel cymuned ddysgu gref

## Argymhellion

Er mwyn gwella ymhellach, mae angen i'r lleoliad:

A1 wneud mwy o ddefnydd o ddeilliannau asesu i gynllunio ar gyfer y dyfodol:

A2 sicrhau bod hunan-arfarnu yn arwain at welliannau gweladwy mewn safonau a darpariaeth; a

A3 parhau gyda'i ymdrechion i sefydlu pwyllgor rheoli.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?** | |

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr Iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |

**Profiadau dysgu: Da**

Mae egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn cael eu hadlewyrchu'n gryf yn ansawdd y cwricwlwm a ddarperir ar gyfer y plant. Trwy gyd-gynllunio, mae ymarferwyr yn llwyddo i ddarparu ystod eang o weithgareddau diddorol a symbylol sy'n annog plant i ddysgu'n effeithiol a gwneud cynnydd da ar draws pob maes dysgu. Mae'r cwricwlwm yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau presennol wrth i blant symud trwy'r Cyfnod Sylfaen.

Mae'r ystod eang o brofiadau dysgu o dan do ac yn yr ardal tu allan yn cymell y plant i ffurfio perthnasau clos ag oedolion a phlant eraill, i fentro ac i arbrofi gyda phrofiadau newydd. Mae'r cyfleoedd cyson a gânt i wneud dewisiadau ac i archwilio eu hamgylchedd yn galluogi'r rhan fwyaf o blant i wneud cynnydd da tuag at ddod yn ddysgwyr annibynnol.

Trwy gynllunio pwrpasol, mae ymarferwyr yn sicrhau bod plant yn caffael y medrau llythrennedd, rhifedd, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu a medrau meddwl ar draws y meysydd dysgu. Yn ystod sesiynau torfol, caiff plant eu hannog i wrando'n astud ar gyfraniadau plant eraill, i ofyn cwestiynau ac i siarad am faterion sydd o bwys iddynt hwy. Yn ystod amser cylch, caiff plant eu hannog i ymuno mewn rhigymau a chaneuon a chânt gyfleoedd rheolaidd i ddilyn straeon sy'n cael eu darllen iddynt gan ymarferydd. Wrth chwarae o dan do a'r tu allan, caiff y plant eu hannog i arbrofi gyda gwneud marciau ar gyfer ystod eang o ddibenion.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hybu'r iaith Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn dda. Mae'r defnydd cyson o Gymraeg gan ymarferwyr a phlant yn nodwedd amlwg o'r lleoliad.

Mae'r plant yn cymryd rhan weithredol yn nhrefniadau ailgylchu'r lleoliad. Trwy ddathlu gwyliau a thraddodiadau Cymreig, mae'r plant yn datblygu eu hunaniaeth bersonol a diwylliannol yn effeithiol. Darperir cyfleoedd diddorol megis dathlu'r flwyddyn newydd Tsieineaidd, i god ymwybyddiaeth y plant o ddiwylliannau eraill

**Addysgu: Da**

Mae gan yr ymarferwyr wybodaeth a dealltwriaeth gadarn o'r Cyfnod Sylfaen, ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ar gyfer dysgu plant. Maent yn darparu profiadau dysgu diddorol ar draws pob maes dysgu ac yn defnyddio ystod dda o strategaethau dysgu sy'n sicrhau ymglymiad a diddordeb plant o bob gallu. Mae'r ymarferwyr yn

gwybod pryd mae'n briodol i ymyrryd yn dysgu'r plant ac maent yn gwneud hynny'n sensitif ac yn fedrus i annog plant i herio'u hunain wrth iddynt ddysgu. Trwy gynllunio gofalus, crëir cydbwysedd addas rhwng gweithgareddau sy'n cael eu dewis gan y plentyn a'r rhai sy'n cael eu harwain gan ymarferwyr. Gwna'r ymarferwyr ddefnydd dychmygus o amrywiaeth o adnoddau i ddenu diddordeb plant ac i wella dysgu. Mae ffocws clir i gymorth oedolion ac maent yn cyfrannu'n sylweddol at ansawdd dysgu'r plant.

Caiff cynnydd a lles plant eu hasesu a'u holrhain yn fanwl ar draws meysydd dysgu. Mae'r strategaethau asesu ar gyfer dysgu a fabwysiadwyd gan y lleoliad yn ddiweddar wedi galluogi'r ymarferwyr i wneud gwell defnydd o wybodaeth asesu ar gyfer cynllunio camau nesaf yn dysgu plant. Mae'r trefniadau ar hyn o bryd, yn eu dyddiau cynnar o ddatblygiad.

Mae'r arfer o gynnwys rhieni wrth asesu eu plant yn sicrhau eu bod yn ymwybodol o gynnydd eu plant a'r hyn y gallant ei wneud i'w helpu i wella.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae gan y lleoliad bolisïau a gweithdrefnau sydd wedi sefydlu'n dda ar gyfer cynorthwyo plant i gyflawni eu hiechyd a'u lles emosiynol a chorfforol. Mae'r plant yn bwyta bwydydd iach yn ystod cyfnod byrbrydau ac mae'r lleoliad yn gwneud defnydd effeithiol o'r ardal tu allan i hybu datblygiad corfforol a ffitrwydd plant. Yn ystod eu hymwneud dyddiol â phlant, mae ymarferwyr yn pwysleisio'n gryf yr angen i bawb fod yn garedig tuag at ei gilydd, i fod yn onest a theg ac i ymddwyn mewn ffordd gyfrifol. Mae hyn yn help mawr i'r plant ddysgu gwahaniaethu rhwng yr hyn sy'n iawn a'r hyn sydd ddim yn iawn. Mae'r cyfleoedd rheolaidd i blant ymgymryd â chyfrifoldebau ac i wneud dewisiadau eu hunain ynghylch eu dysgu yn cyfrannu'n arwyddocaol tuag at eu datblygiad personol a chymdeithasol. Mae'r gwaith trylwyr a gyflawnodd y lleoliad wrth weithio tuag at achrediad Cam 2 Cynllun Ysgol Iach wedi cyfrannu'n sylweddol tuag at yr agweddau.

Mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn darparu arweiniad clir iddynt yn ystod sesiynau. Maent yn gwybod sut i gael mynediad at gymorth proffesiynol megis gan seicolegydd addysg neu therapydd lleferydd.

Mae'r trefniadau sefydlu effeithiol yn helpu plant i ymgartrefu'n gyflym a didrafferth yn y lleoliad. Mae gan y lleoliad bolisi priodol ac mae ganddo weithdrefnau ar gyfer diogelu.

Mae'r lleoliad yn nodi anghenion dysgu plant yn fanwl pan fyddant yn ymuno ac yn sicrhau bod yr anghenion hyn yn cael eu bodloni. Mae'r cymorth a'r gefnogaeth a ddarperir ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol ac yn galluogi'r plant hyn i wneud cynnydd addas yn eu dysgu ac i ddatblygu medrau personol a chymdeithasol allweddol.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle caiff pob plentyn hawl gyfartal i'r holl feysydd dysgu a'r gweithgareddau ar ddarperir ar y cyfer. Mae pwyslais cryf ar ddatblygu agweddau goddefgar ac ar sicrhau bod plant ac aelodau staff yn rhydd o unrhyw aflonyddwch. Mae gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr sy'n meddu ar wybodaeth ac arbenigedd digonol i addysgu pob agwedd ar gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Mae’r amgylchedd ysgogol a grëir yn y lleoliad yn galluogi pob plentyn i fanteisio'n llawn o'i brofiadau dysgu a datblygu gwerthoedd ac agweddau cadarnhaol.

Yn gyffredinol, mae cyflenwad da o adnoddau o ansawdd da yn yr holl feysydd dysgu sy'n cael eu gweddu'n ofalus i ddatblygiad ac anghenion dysgu pob unigolyn. Caiff yr adnoddau yn yr ardal y tu allan ac yn y gymuned eu defnyddio'n bwrpasol i gyfoethogi'r cwricwlwm ac i gefnogi dysgu yn yr ystafell ddosbarth. Mae’r adeilad a'r ystafelloedd o ansawdd da ac yn cael eu defnyddio'n helaeth.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae synnwyr cryf o ddiben a grëir yr arweinyddion yn hyrwyddo a chynnal gwelliannau'n effeithiol. Caiff yr addysgu a'r dysgu eu rheoli'n dda a rhoddir polisïau'r lleoliad ar waith yn effeithiol. Mae disgwyliadau uchel ar gyfer sicrhau ansawdd a herio staff yn gadarnhaol a defnyddir y drefn gwerthuso staff yn bwrpasol er mwyn cysoni perfformiad ac adnabod anghenion datblygiad proffesiynol. Mae'r ymarferwyr yn cydweithio'n agos iawn fel tîm ac yn cyd-rannu gwerthoedd cytûn ynghylch dysgu, ymddygiad a pherthynas. Gwnânt yn siŵr bod y Cyfnod Sylfaen a blaenoriaethau cenedlaethol eraill, yn cael eu cyflwyno'n llwyddiannus. Mae'r berthynas gyda phlant, y rhieni ar ysgol gynradd gyfagos yn gadarnhaol iawn ac yn cyfrannu'n sylweddol at greu ymdeimlad o gymuned.

Er holl ymdrechion yr arweinyddion i greu pwyllgor rheoli, ni lwyddwyd i ymrestru unrhyw riant i ymgymryd â’r gwaith. Fodd bynnag, crëwyd tîm bychan o staff sy’n cynnwys pennaeth yr ysgol gynradd, i ymgymryd â dyletswyddau rheolaeth y lleoliad. Mae’r grŵp yma yn cyflawni ei waith yn effeithiol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r arweinyddion yn adnabod y lleoliad yn dda, maent yn hunan-arfarnu’n gyson ac yn archwilio ffyrdd i wella. Mae trefniadau cadarn wedi'u sefydlu ar gyfer cynnal arfer dda a rhoi newid ar waith mewn meysydd sydd angen gwelliant. Mae hunan-arfarniad yn rhoi ystyriaeth ofalus i farn rhieni ac yn manteisio'n sylweddol ar gyngor proffesiynol athrawes gefnogol yr awdurdod lleol.

Mae adroddiad hunan-arfarnu’r lleoliad o ansawdd da a defnyddir yr wybodaeth yn effeithiol ar gyfer rhoi strategaethau ar gyfer gwella ar waith. Fodd bynnag, ar hyn o bryd nid yw’r trefniadau presennol hunan-arfarnu heb fod yn weithredol yn ddigon hir i arwain at welliannau sylweddol mewn safonau a darpariaeth.

Mae ymarferwyr yn cael cefnogaeth gref gan raglen datblygiad proffesiynol parhaus a ddarperir yn bennaf gan yr awdurdod lleol. Mae hyn wedi'u galluogi i gaffael gwybodaeth a medrau newydd ac i gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen yn llwyddiannus. Mae'r sesiynau hyfforddi hefyd yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr iddynt rannu eu harfer gydag ymarferwyr o leoliadau eraill.

Mae'r lleoliad yn datblygu'n dda fel cymuned ddysgu gref. Mae'r ymarferwyr yn agored iawn i syniadau newydd ac maent yn barod i roi cynnig ar wahanol ffyrdd o weithio a rhannu gwybodaeth a syniadau ymhlith ei gilydd.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae ystod eang o weithgareddau partneriaethau yn cyfrannu'n dda at gyflawniadau a lles plant. Caiff y rhieni eu hysbysu'n rheolaidd am bob agwedd ar waith y lleoliad ac mae'r arweinyddion yn manteisio ar bob cyfle i'w cynnwys yn addysg eu plant. Mae'r ymarferwyr yn cydweithio gyda'i gilydd yn dda iawn, yn rhannu gwybodaeth am blant ac yn gwybod gyda phwy i gysylltu a phryd, os bydd angen cymorth ychwanegol ar gyfer plant. Gwneir defnydd addas o adnoddau a chysylltiadau cymunedol i gefnogi dysgu plant.

Mae partneriaeth gynhyrchiol a sefydlwyd yn ddiweddar gydag athrawes Cyfnod Sylfaen yr ysgol gynradd wedi arwain at well cydweithio ac wedi dod a buddiannau i'r plant. Mae cysylltiadau gweithredol hefyd wedi'u ffurfio gyda nifer o sefydliadau ac asiantaethau addysg.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r lleoliad wedi'i staffio'n briodol i addysgu'r cwricwlwm yn effeithiol a defnyddir staff yn effeithiol i wneud y defnydd gorau posib o'u hamser, eu harbenigedd a'u profiad. Mae trefniadau priodol ar gyfer bodloni anghenion datblygu staff sy'n sicrhau bod ganddynt wybodaeth gyfredol o ddatblygiadau yn y Cyfnod Sylfaen. Rheolir yr holl adnoddau'n dda. Mae gan yr arweinyddion ddealltwriaeth drylwyr o'u cyllideb ac maent yn blaenoriaethu gwariant yn unol ag anghenion datblygu'r lleoliad. Caiff penderfyniadau gwariant eu harfarnu'n ofalus gan yr arweinydd i wneud yn siŵr eu bod yn cael effaith cadarnhaol ar safonau, cynnydd a lles plant. Mae'r lleoliad yn rhoi gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Nid oes sylwebaeth ar yr holiaduron i rieni gan mai nifer bychan yn unig o ymatebion a gafwyd.

**Trafod â phlant**

Mae'r plant yn dweud eu bod yn hapus yn y lleoliad a'u bod yn hyderus i droi at unrhyw oedolyn i ofyn am gyngor neu arweiniad.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Mr Wil Williams | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |